Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# DIWEDDARIAD GAEAF 2023

**Cronfa Addington**
01926 620 135

**Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)**
0300 303 8268

**Arolwg moch daear marw**
0808 169 5110

**Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)**
0808 169 5110

**Llinell Gymorth Rheoli Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS**
01974 847 000

**Sefydliad DPJ**
0800 587 4262

**EID Cymru**
01970 636 959

**Cyswllt Ffermio**
03456 000 813

**Y Rhwydwaith Cymunedau Fferm**
03000 111 999

**Lantra Cymru**
01982 552 646

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**
0300 065 3000

**Ardystiad Bwyd Cymreig o Ansawdd**
01970 636 688

**Sefydliad Fuddianol Amaethyddol Frenhinol (RABI)**
0800 188 4444

**Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW**
0300 062 5004

**Llinell Gymorth TB**
0800 496 1439

**Tir Dewi**
0800 121 4722

**Samaritans yng Nghymru**
0808 164 0123

Nodir bod y wybodaeth yn y Diweddariad Gaeaf 2023 yn gywir ac yn gyfredol hyd at ddyddiad cyhoeddi ar 17 Tachwedd 2023. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn: llyw.cymru.

OGL © Hawlfraint y goron 2023
WG48282 ISBN Digidol: 978-1-83577-097-9 ISBN Argraffu: 978-1-83577-096-2

# CYNNWYS




04
TALIADAU GWLEDIG CYMRU

04
CYNLLUNIAU CYMORTH AMAETHYDDOL

05
DEDDF AMAETHYDDIAETH (CYMRU)

06
CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY – DIWEDDARIAD

07
CYNLLUN CYNLLUNIO CREU COETIR

08
RHEOLIADAU LLYGREDD AMAETHYDDOL

09
ADNABOD A SYMUD DA BYW – DIWEDDARIAD

12
PARTNERIAETH DIOGELWCH FFERM CYMRU

14
IECHYD A LLES ANIFEILIAID

20
DEWCH O HYD I NI AR FACEBOOK

21
Y RHAGLEN RHEOLI LLIFOGYDD YN NATURIOL

22
CYSWLLT FFERMIO

24
BLE ALLA I GAEL HELP?

# TALIADAU GWLEDIG CYMRU

## Taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) 2023

Mae rhagdaliadau gwerth hyd at 70% o werth terfynol disgwyliedig hawliad BPS 2023 wedi cael eu talu i gwsmeriaid lle roedd yn bosibl cadarnhau cymhwysedd hawliad ac roedd yr holl ddogfennau ategol a oedd eu hangen wedi'u derbyn mewn pryd i wneud y taliad. Efallai y bydd rhesymau pam nad yw rhagdaliad BPS wedi'i wneud, er enghraifft, oherwydd anghydfod parhaus ynghylch tir, achosion o dorri rheolau a nodwyd wrth archwilio neu faterion profiant sy'n weddill.

Yn amodol ar ddilysu llawn, bydd gweddill taliadau BPS 2023, neu daliadau llawn i'r rhai nad ydynt wedi derbyn rhagdaliad, yn dechrau ar 15 Rhagfyr 2023.

---

## Taliadau Glastir 2023

Bydd talu hawliadau Glastir Uwch, Glastir Tir Comin a Glastir Organig yn dechrau ar 1 Rhagfyr 2023, yn amodol ar gymhwysedd yr hawliad a derbyn yr holl ddogfennau ategol sydd eu hangen.

# CYNLLUNIAU CYMORTH AMAETHYDDOL

Mae dyddiadau ymgeisio ar gyfer pob cynllun cymorth amaethyddol i'w gweld yn: **llyw.cymru/cynlluniau-gwledig-dyddiadau-ymgeisio**

Mae manylion pellach a dogfennau canllaw ar gyfer yr holl Gynlluniau Cymorth Amaethyddol yn: **llyw.cymru/cynlluniau-gwledig-dyddiadau-ymgeisio**



# DEDDF AMAETHYDDIAETH (CYMRU)



Daeth Deddf Amaethyddiaeth gyntaf Cymru yn gyfraith ym mis Awst. Sefydlodd y Ddeddf Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy a fydd yn sail i gymorth ar gyfer ffermio a rheoli tir yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r fframwaith yn cynnwys y pedwar amcan canlynol sydd wedi'u cynllunio i gefnogi ein ffermwyr;

1. cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy
2. lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo
3. cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu rhoi
4. cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt ac ymgysylltiad y cyhoedd â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi'r pwerau angenrheidiol i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth yn y dyfodol (gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig) gan sicrhau cefnogaeth barhaus hefyd i ffermwyr yn ystod cyfnod trosi, gan adlewyrchu ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ein galluogi i ddiwygio Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 i roi llwybr i denantiaid i ddatrys anghydfod mewn rhai amgylchiadau.

# CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY – DIWEDDARIAD

Fe wnaethom gyhoeddi cyfres o adroddiadau ym mis Gorffennaf yn adlewyrchu canfyddiadau'r ymarfer cydlunio a gynhaliwyd y llynedd.

Mae'r canfyddiadau cydlunio wedi'u cyfuno â'n datblygiadau polisi parhaus ac wedi helpu i ddatblygu'r fersiwn nesaf o gynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) a fydd yn cael eu cynnwys mewn ymgynghoriad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr.

Mae strwythur y Cynllun Ffermio Cynaliadwy - gan gynnwys haenau Sylfaenol, Opsiynol a Chydweithredol yn parhau i fod yr un fath i raddau helaeth ag y gwnaethom ei gynnig yn ein Cynigion Bras y llynedd, fodd bynnag, mae adborth cydlunio wedi ein helpu i ddatblygu mwy o fanylion am weithredoedd cynlluniau unigol, a sut y gallai'r cynllun cyffredinol weithredu.

Er enghraifft, cawsom adborth ar nifer y newidiadau y gallai rhai ffermwyr orfod eu gwneud. Rydym am roi digon o amser i ffermwyr ddod i arfer â'r cynllun, felly rydym yn ystyried y cyfleoedd ar gyfer dull graddol o weithredu. Mae hyn yn golygu ein bod yn ystyried cyflwyno'r Gweithredoedd Sylfaenol craidd yn 2025 i sicrhau bod y rhain yn cael eu sefydlu'n iawn, gyda'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol sy'n weddill yn dilyn trwy gydol y cyfnod trosi.

Mae cynigion plannu coed yn parhau i greu adborth, ac rydym yn archwilio ymhellach yr ardaloedd nad ydynt yn addas i'w plannu megis mawndir dwfn, a thir rhent lle nad yw'r ffermwr tenant yn gallu plannu coed. Rydym wedi archwilio newidiadau pellach i'r cynnig fel nad yw'r targed gorchudd coed yn 10% o'r daliad cyfan, ond yn 10% o'r arwynebedd sy'n weddill unwaith y bydd ardaloedd anaddas wedi'u nodi.

Yr ymgynghoriad yw'r cyfle olaf i ffermwyr helpu i lunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy cyn i'r cynllun ddechrau yn 2025. Ni fydd unrhyw benderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud hyd nes y bydd yr ymgynghoriad hwn wedi dod i ben.

Bydd cyfres o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal mewn sioe deithiol ledled Cymru yn y flwyddyn newydd i gyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn, ac rydym yn annog cymaint o ffermwyr â phosibl i fynychu. Bydd dyddiadau a manylion y cyfarfodydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn Gwlad ac ar y cyfryngau cymdeithasol cyn y cyfarfodydd.



# CYNLLUN CREU COETIR

## Cyngor am Ddim ar Greu Coetir

Ydych chi'n ystyried creu coetir ar eich fferm? Os felly, a ydych chi'n ymwybodol bod 'gwasanaeth cyn ymgeisio' am ddim ar gael gan CNC?

Mae'r 'gwasanaeth cyn ymgeisio' hwn wedi'i gynllunio i gynnig gwybodaeth am ba mor addas yw eich tir ar gyfer creu coetir. Yn dilyn y cyngor hwn, gallwch wneud cais i'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir sy'n darparu cyllid o £1,000 i £5,000 i benodi Cynllunydd Coetir Cofrestredig i ddatblygu cynllun i chi.

**Negeseuon allweddol:**

- Mae'r cyngor am ddim
- Mae ar gyfer plannu arfaethedig ar dir dros 0.25 hectar
- Mae'n orfodol ar bob safle sy'n berthnasol i'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir
- Dylid gwneud hyn cyn cyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb (EOI) ar gyfer y cynllun Cynllunio Creu Coetire

I gael gafael ar y cyngor am ddim neu am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost i **GwirioCynllunCoetir@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

Er mwyn cael y gorau o'r gwasanaeth cyn ymgeisio rydym yn argymell eich bod yn ystyried y setiau data sydd ar gael i chi yn y Map Cyfleoedd Coetir sy'n dangos unrhyw gyfyngiadau neu sensitifrwydd sy'n gysylltiedig â safle plannu newydd posibl.

**mapdata.llyw.cymru/maps/woodland-opportunity-map-2021/**

## Cynllun Cynllunio Creu Coetir

Mae'r cynllun yn darparu grantiau rhwng £1,000 a £5,000 ar gyfer:

- cyngor proffesiynol gan Gynllunydd Coetir Cofrestredig
- datblygu cynllun creu coetir sy'n cydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU (UKFS), wedi'i wirio gan CNC ac sy'n ddilys am 5 mlynedd

Mae'r cymorth yn cynnwys 80% o'r costau o gynnal arolwg cynefinoedd neu rywogaethau arbenigol fel ystlumod, adar sy'n magu, llystyfiant a mawn.

Mae'r cynllun ar agor drwy gydol y flwyddyn.

**llyw.cymru/y-cynllun-cynllunio-creu-coetir-trosolwg**

# RHEOLIADAU LLYGREDD AMAETHYDDOL



Ar 10 Hydref cyhoeddodd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd Ddatganiad Ysgrifenedig yn dilyn yr ymgynghoriad ar gynllun trwyddedu a gynhaliwyd rhwng Tachwedd 2022 a Chwefror 2023.

**Newid Dyddiad**

Mae'r Datganiad Ysgrifenedig yn estyn y cyfnod pontio ar gyfer y terfyn 170kg o nitrogen yr hectar o dail da byw ar ddaliad cyfan sy'n rhan o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol o 31 Hydref 2023 i 1 Ionawr 2024 ar gyfer pob fferm. **Nid yw'r datganiad yn effeithio ar y mesurau eraill yn y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.**

**Dull Rheoli Maethynnau Uwch**


Cyflwynodd y Datganiad Ysgrifenedig hefyd y dull Rheoli Maethynnau Uwch. Mae hwn yn fater sydd wedi'i gyfyngu o ran amser rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024. Bydd yn gweithredu lle mae angen gwasgaru mwy na 170kg / ha nitrogen o dail da byw (hyd at 250kg / ha) oherwydd anghenion maeth y cnwd.

Bydd gofyn hysbysu CNC bod y dull Rheoli Maethynnau Uwch yn cael ei ddefnyddio cyn 31 Mawrth 2024.

Rhaid i ffermydd sy'n ymgymerid a'r dull Rheoli Maethynnau Uwch gymryd mesurau ychwanegol i ddiogelu'r amgylchedd. Nid yw'r gofynion ychwanegol hyn yn berthnasol i ffermydd sy'n gwasgaru llai na 170kg/N/ha y flwyddyn o dail da byw. Bydd manylion yr holl ofynion ar gael mewn canllaw pwrpasol am Reoli Maethynnau Uwch erbyn diwedd mis Tachwedd.

Mae'r camau hyn o dan y Cytundeb Cydweithio, yn cynrychioli camau pellach tuag at ein nod cyffredin o leihau'n sylweddol y llygredd sy'n deillio o amaethyddiaeth, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i wneud hynny mewn partneriaeth â'r gymuned ffermio i sicrhau canlyniadau parhaol.

# ADNABOD A SYMUD DA BYW – DIWEDDARIAD




## Amlrywogaeth Cymru

Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i ddatblygu EIDCymru yn system ar gyfer mwy nag un rhywogaeth. Rydym wrthi'n gweithio i lunio rheolau'r system ar gyfer gwartheg ac yn gobeithio ei lansio i geidwaid gwartheg yng Nghymru erbyn diwedd 2024. Byddwn yn rhoi diweddariadau i chi wrth i ni fynd yn ein blaenau gyda'r gwaith hwn.

## EIDCymru

**Ydych chi'n defnyddio EIDCymru i roi gwybod yn electronig am symudiadau eich defaid?** Bydd staff swyddfa EIDCymru yn hapus i'ch helpu i fewngofnodi i'r system neu i siarad â chi drwy'r broses. Ffoniwch 01970 636 959 neu e-bostiwch **contact@eidcymru.org**

## Rheoli Fy CPH – Symudiadau da byw

Oeddech chi'n gwybod y gallech uno'r holl dir sydd gennych o fewn radiws o 10 milltir yn un CPH? Bydd hyn yn lleihau'ch gwaith papur ac yn symleiddio'ch adroddiadau symud. I weld a ydych yn gymwys a sut i ddefnyddio Rheoli Fy CPH, ewch i RPW Ar-lein: **llyw.cymru/rpw-ar-lein-pecyn-e-ddysgu-cph-cyflwyniad-sut-i-ddefnyddio**

**Eisoes yn defnyddio Rheoli fy CPH?** Peidiwch ag anghofio sicrhau bod eich holl fanylion yn gyfredol. Gallai hen wybodaeth yn Rheoli Fy CPH ei gwneud yn anodd olrhain da byw pe ceid achos o glefyd hysbysadwy a'ch rhwystro rhag symud eich da byw.

## Stocrestr Flynyddol o Ddefaid a Geifr 2024

Mae'r Stocrestr Flynyddol yn ofyniad cyfreithiol i gofnodi cyfanswm y defaid a'r geifr yr ydych yn berchen arnynt ar **ddydd Llun, 1 Ionawr 2024.**

Tua diwedd mis Rhagfyr 2023, bydd pob ceidwad yng Nghymru yn derbyn hysbysiad yn gofyn iddynt gwblhau eu Datganiad Stocrestr Flynyddol.

Gellir cwblhau'r stocrestr ar-lein trwy EIDCymru. Bydd staff EIDCymru wrth law i'ch helpu.

**Bydd ceidwaid:**

- sydd wedi cyflwyno stocrestr electronig o'r blaen yn cael e-bost yn gofyn iddynt gwblhau'r stocrestr ar-lein. (Pwysig: ni fydd yr opsiwn hwn yn ymddangos ar eich cyfrif EIDCymru tan 1 Ionawr 2024).
- sydd â chyfrif EIDCymru byw yn cael llythyr, yn gofyn iddynt gwblhau'r rhestr eiddo ar-lein.
- sydd heb gyfrif EIDCymru yn cael llythyr a ffurflen bapur.

Mae'n rhaid dychwelyd y Stocrestr Flynyddol erbyn **dydd Iau, 1 Chwefror 2024.**

## Llyfr Cofnodion Defaid a Geifr

Mae Llyfr cofnodion y Ddiadell/ a'r Geifr wedi cael ei ddiweddaru. Mae'r fformat yn newydd.

Os hoffech gael copi wedi'i rag-argraffu o lyfr y ddiadell, cysylltwch â EIDCymru gyda'ch enw a'ch cyfeiriad:

Drwy e-bostio **contact@eidcymru.org** neu ffonio 01970 636959





## Tagiau gwartheg — Pryd caiff EID Gwartheg ei gyflwyno yng Nghymru?

Rydym yn gweithio tuag at y nod o gychwyn EID Gwartheg yng Nghymru yn 2025. Nid ydym wedi penderfynu'n derfynol ar fanylebau tagiau EID Gwartheg eto. Rydym am aros i weld canlyniadau'r treial EID Gwartheg.

Byddwn yn rhoi gwybod yn rheolaidd i chi am unrhyw ddatblygiadau ynghylch cyflwyno EID Gwartheg.

Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth yn rhifynnau e-gylchlythyr Gwlad ac yn ei rhannu â grwpiau'r diwydiant. Yn y cyfamser, rydym yn cynghori ceidwaid i archebu dim ond y tagiau confensiynol fydd eu hangen arnynt i dagio'r lloi fydd yn cael eu geni dros y flwyddyn nesaf.

PARTNERIAETH
DIOGELWCH
FFERM CYMRU

WALES
FARM SAFETY
PARTNERSHIP



# GWEITHIO GYDA GWARTHEG

**BOB BLWYDDYN MAE NIFER A DDAMWEINIAU ANGHEUOL AR FFERMYDD YN DIGWYDD OHERWYDD BOD FFERMWYR YN BOD YN HUNANFODDHAUS HEB GYMRYD Y CAMAU PRIODOL I SICRHAU EU DIOGELWCH RHAG EU HANIFEILIAID.**



# PAN FYDDWCH YN GWEITHIO GYDA DA BYW GWNEWCH ASESIAD RISG

- Dewisiwch a defnyddiwch cyfleusterau trin sydd wedi'u dylunio'n dda ar y iard, mewn adeilad neu mewn cae. Sicrhewch eu bod mewn cyfwr da.
- Aseswch bob answer yr angen am help cyn dechrau'r dasg.
- Ymgyfarwyddwch a'r man trafod a'r offer sy'm cael ei ddefnyddio.
- Peidiwch, byth fynd I fewn I loc a tharw rhydd neu fuwch a llo wrth ei throed sydd heb ei chlymu.
- Os yn bosibl, cadwch dda byw a'r wahan I'r cyhoedd, dewiswch gaeau heb hawliau tramwy ar gyfer gwartheg a lloi wrth droed.
- Gweithiwch yn dawel gyda gwartheg, gyda chyn lleied o weiddi, diffyg amynedd a grym diangen.
- Byddwch yn ymwybodol o'r peryglon wrth drin gwartheg.

## PEIDIWCH BYTH A CHYMRYD YN GANIATAOL BOD GWARTHEG YN GWNEUD YR HYN RYDYCH YN DISGWYL IDDYNT WNEUD

www.hse.gov.uk/agriculture

@farmsafetywales

Diogelwch ffrem Cymru – Farm Safety Wales

# IECHYD A LLES ANIFEILIAID

## Ymweliad ardystio milfeddygol yn ofynnol ar gyfer allforio Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid i'r UE – Newidiadau Allweddol.

Ym mis Ionawr 2022, cyflwynodd Rheoliad Iechyd Anifeiliaid yr UE ofyniad newydd i ffermydd sy'n cynhyrchu anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid (POAO) neu gynhyrchion cenhedlol i'w hallforio i'r UE fod yn destun "ymweliadau milfeddygol rheolaidd".

Os ydych yn allforio anifeiliaid neu POAO i'r UE, mae'n rhaid bod y canlynol wedi digwydd rhywbryd yn ystod y 12 mis cyn 13 Rhagfyr 2023:

- rydych wedi cael ymweliad milfeddygol neu
- rydych wedi bod yn rhan o gynllun gwarant cydnabyddedig

Mae hyn yn golygu bod angen ichi gynllunio ymlaen llaw a threfnu bod un o'r opsiynau uchod wedi digwydd cyn y dyddiad cau ar 13 Rhagfyr 2023.

Ystyrir bod aelodaeth o gynlluniau sicrhau ansawdd yn bodloni'r gofyniad o ran cael ymweliad milfeddygol.

### Cynlluniau Cymwys

- Red Tractor
- Gynllun Cig Eidion a Chig Oen Gwarant Fferm Da Byw Cymru (FAWL)
- Lion Quality
- Poultry Health Scheme

Gellir cyfuno ymweliad ardystio milfeddygol ag unrhyw ymweliad fferm.

Os nad yw eich fferm yn rhan o gynllun gwarant fferm cydnabyddedig, yna rhaid trefnu ymweliad â milfeddyg preifat ac mae angen ardystiad gan y milfeddyg yn nodi bod yr ymweliad wedi digwydd ac wedi bodloni meini prawf bioddiogelwch penodol. Perchennog busnes y fferm sy'n gyfrifol am drefnu'r ymweliad hwn.

Mae'r ymweliad yn cynhyrchu Rhif Ardystiad Milfeddygol (VAN) y mae'n rhaid ei gofnodi ar ddogfennau Gwybodaeth am Gadwyn Fwyd (FCI) pan fydd anifeiliaid yn mynd i'r farchnad neu ladd-dy.

Heb dystiolaeth bod eich fferm yn cael ymweliadau milfeddygol rheolaidd, efallai na fydd y Milfeddyg Swyddogol yn y lladd-dy yn gallu llofnodi Ardystiad Cefnogi Iechyd (SHA) sy'n hwyluso cynhyrchion sy'n deillio o'ch anifeiliaid i gael eu hallforio i'r UE.


### Beth yw'r Rhif Ardystiad Milfeddygol?

Rhif Ardystiad Milfeddygol (Vet Attestation Number) yw VAN.

**Caiff hwn ei greu gan y milfeddyg sy'n cynnal ymweliadau milfeddygol. Mae'n cynnwys:**

- Rhif Coleg Brenhinol y Milfeddygon y milfeddyg sy'n cynnal yr ymweliad
- Rhif y Daliad sy'n cael ymweliad
- Dyddiad dilysrwydd y datganiad

Er enghraifft: 12345 [Rhif MRCVS] 12/345/6789 [Rhif y Daliad] 0624 [Yn ddilys hyd at ddiwedd Mehefin 2024].



## Sut y bydd hyn yn gweithio yng Nghymru?

**1** Yng Nghymru, bydd angen i ffermwyr gofnodi VAN yr ymweliad ar ddogfennau FCI pan fydd anifail/anifeiliaid yn mynd i'r farchnad neu ladd-dy.

**2** Mae Llywodraeth Cymru yn archwilio atebion digidol ar gyfer y tymor hwy.

**3** Ar gyfer defaid, darperir fersiwn newydd o'r ffurflen AML1 gyda lle pwrpasol ar gyfer cofnodi'r VAN cyn 13 Rhagfyr. Ar gyfer rhywogaethau eraill, mae angen nodi'r VAN ar unrhyw ffurflenni FCI perthnasol y gallwch eu defnyddio.

**4** Os byddwch yn parhau i ddefnyddio ffurflenni AML1 presennol ar ôl 13 Rhagfyr, bydd angen i chi nodi'r VAN yn adran FCI Ychwanegol yr AML1.

## Beth sydd angen i'r ymweliad ymdrin ag ef?

- Asesiad o'r risg bioddiogelwch ar y safle
- Ymgorffori asesiadau o iechyd anifeiliaid ar lefel sefydliadol. (Nid oes angen archwilio anifeiliaid unigol).
- Cynnwys cyngor i'r ffermwr, fel y mae'r milfeddyg yn ei ystyried yn briodol, ar unrhyw bryderon bioddiogelwch a allai fod yr un mor berthnasol ar gyfer y math o sefydliad a'r rhywogaethau a'r categoriau o anifeiliaid a gedwir ar y sefydliad. (Nid oes angen cofnodi'r cyngor)
- Ystyried clefydau a risgiau cysylltiedig y rhywogaethau sy'n bresennol. Gall nifer o rywogaethau ar un safle fod yn destun un ardystiad milfeddygol os eir i'r afael a'r materion bioddiogelwch ar gyfer pob rhywogaeth ar y safle hwnnw.

Mae rhagor o wybodaeth am ofynion Ardystiad Milfeddygol ar gael yma (Saesneg yn unig): **gov.uk/guidance/export-food-and-agricultural-products-special-rules#export-or-move-POAO**

## Newidiadau i'r Gorchymyn TB

Fel y cyhoeddodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd yn ei datganiad ym mis Mawrth ar TB ac a nodir yng Nghynllun Cyflawni'r Rhaglen Dileu TB, mae newidiadau'n cael eu gwneud i Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd).

**Disgwylir i'r rhain gael eu cyflwyno yn y flwyddyn newydd (1 Chwefror 2024) a byddant yn cynnwys:**

- Ailddechrau profion cyn symud ar fuchesi yn yr Ardal TB Isel.
- Diwygio'r Gorchymyn i'w gwneud yn ofynnol i geidwad yn ardal TB ganolradd Cymru gynnal prawf ar ôl symud pan fydd yn derbyn anifail o fuches yn yr ardal risg uchel yn Lloegr.
- Mewnosod darpariaeth ychwanegol i ganiatáu Gweinidogion Cymru i gyhoeddi gwybodaeth ynghylch pa mor hir y bu buches â statws heb TB yn swyddogol, a chaniatáu cynnwys yr wybodaeth ar wefan ibTB er mwyn i geidwaid allu asesu risg TB y gwartheg maen nhw'n eu prynu.

Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth cyn cyflwyno'r mesurau hyn er mwyn eu hesbonio'n fanylach.

## TB Gwartheg a Symud Gwartheg (trwyddedau)

Hyd yma mae perchnogion buchesi sydd dan gyfyngiadau TB wedi gorfod gwneud cais i APHA am drwydded benodol i symud gwartheg bob tro yr oeddynt am werthu gwartheg i Uned Besgi Gymeradwy, un ai'n uniongyrchol neu drwy Arwerthiant Arbennig TB wedi ei gymeradwyo ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau TB ('marchnad oren'). Weithiau, roedd yr amser yr oedd ei angen er mwyn cwblhau'r broses honno yn golygu ei bod yn anodd i geidwaid fodloni gofynion prynwyr gwartheg.

Ers 2 Hydref 2023 ymlaen, bydd ceidwaid buchesi dan gyfyngiadau TB yn gallu gwneud cais am drwydded gyffredinol (TB16e) i gynnwys symud gwartheg yn uniongyrchol neu drwy Arwerthiant Arbennig wedi ei gymeradwyo ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau TB ("marchnad oren") yng Nghymru neu Loegr i:

- Uned Besgi Gymeradwy/ Uned Besgi Gymeradwy Fanwl â Phori (yn Lloegr)
- Lladd-dy



Bydd y drwydded gyffredinol yn ddilys ar gyfer y cyfnod rhwng profion cyfnod byr. Bydd angen gwneud cais am drwydded newydd ar ôl pob prawf cyfnod byr.

Yng Nghymru, dylid gwneud ceisiadau am drwydded i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)

Ffôn: 0300 303 8268

E-bost:
**APHA.CymruWales@apha.gsi.gov.uk**

Bydd y drwydded, gan gynnwys amodau manwl, yn cael eu cyhoeddi ar gov.uk a bydd yr wybodaeth ar llyw.cymru/tb-mewn-gwartheg a'r hwb TB yn cael ei diweddaru.

## Peilot prosiect TB Sir Benfro

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried sut i fynd i'r afael â lefelau disymud y clefyd yn rhannau o Sir Benfro, lle mae nifer yr achosion o TB a'r buchesi o dan gyfyngiadau wedi gwaethygu o'u cymharu â sefyllfa gyffredinol sy'n gwella.

Fel y dywedwyd yn y Cynllun Cyflawni TB ac yn unol â'r ymatebion a gafwyd i'n hymgynghoriad ac adroddiad Grŵp Ffocws TB NFU Cymru, rydym yn ymchwilio i drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer dileu TB ar lefel leol.

Mae contract wedi'i ddyfarnu'n llwyddiannus a bydd hynny'n ein galluogi i dargedu'n gwaith mewn cydweithrediad â'r diwydiant. Amcan y prosiect yw gweithio ar sampl fach o ffermydd yn Sir Benfro, gan roi'r grym i filfeddygon a ffermwyr allu gwneud penderfyniadau cytbwys a dangos arweiniad o ran rheoli'r clefyd.

Bydd yn datblygu ac yn cynnal rhagor o fesurau ar gyfer rheoli TB gwartheg, yn ychwanegol at y mesurau statudol sydd ar waith yn yr ardal ar hyn o bryd.

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar bennu'r risg sydd ynghlwm wrth glefyd gweddillol ymhlith gwartheg sydd wedi cael prawf clir. Bydd hefyd yn datblygu llwybr ar gyfer lleihau'r risg o drosglwyddo'r clefyd o fuwch i fuwch. Gwneir hyn trwy reoli ar sail risg fydd yn golygu nodi a rheoli anifeiliaid risg uchel hyd at eu lladd a thrwy sicrhau bod milfeddygon yn cadw golwg fanwl ar arferion bioddiogelwch.

## TB – Ynys Môn

Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) wedi nodi bod y sefyllfa ar Ynys Môn yn dirywio . Roedd data gwyliadwriaeth yn dangos bod naw achos agored ar Ynys Môn ar 31 Rhagfyr 2022. Mae hyn yn cymharu ag 8 yn yr un cyfnod yn 2021, 2 yn 2020, a 3 yn 2017.

Cynhaliwyd ymchwiliad epidemiolegol i asesu'r dylanwadau ar y clefyd ar Ynys Môn ac mae'r asesiad cychwynnol yn awgrymu bod ardaloedd Dinbych/Conwy, lle ceir llawer o achosion o TB, wedi bod yn ddylanwad. Mae Ynys Môn yn rhan fawr o Ardal TB Isel Cymru, felly mae'n flaenoriaeth rhwystro'r cynnydd yn y clefyd ar yr ynys.

Mae'r Arolwg Moch Daear Marw yn awgrymu mai ar Ynys Gybi y mae'r rhan fwyaf o foch daear Ynys Môn. Nid oes moch daear positif wedi'u darganfod fel rhan o'r Arolwg Moch Daear Marw ar Ynys Môn hyd yma.



## Brechu moch daear Ynys Gybi

Cynhaliwyd arolwg moch daear a bioddiogelwch ar Ynys Gybi ym mis Mawrth 2023 i asesu lefelau gweithgarwch moch daear. Mae'r lefelau gweithgarwch a welwyd yn ddigon i gyfiawnhau brechu moch daear, ac mae rhaglen frechu moch daear pedair blynedd bellach wedi dechrau ar Ynys Gybi.

## Arolwg o Foch Daear Marw

Yng Nghymru, rydym wedi bod yn trefnu casglu moch daear marw ers 2014. Defnyddir canlyniadau'r arolwg hwn i ymchwilio i'r berthynas rhwng presenoldeb haint TB gwartheg mewn moch daear a gwartheg.

Mae'r arolwg wedi cynyddu ein gwybodaeth am yr haint Mycobacterium bovis (M. bovis) mewn moch daear.

Byddem yn annog unrhyw un sy'n dod o hyd i fochyn daear marw i gysylltu â'r llinell Moch Daear Marw – 0808 169 5110, gan ddisgrifio union leoliad y mochyn daear, yn ddelfrydol trwy roi'r cyfeirnod grid neu leoliad what3words.

Er bod pob rhanbarth yn allweddol, rydym yn arbennig o awyddus i gynyddu'n gwybodaeth drwy'r cynllun am Sir Benfro a Gogledd Cymru, gan gynnwys Ynys Môn, a byddem yn annog pawb i roi gwybod i ni am foch daear marw yn yr ardaloedd hyn.

## Gofalu am anifeiliaid fferm a cheffylau mewn tywydd gaeafol eithafol

Os ydych yn cadw anifeiliaid, dylech gael cynllun wrth gefn ar gyfer diogelu eu lles yn ystod tywydd eithafol.

**Gall oerni eithafol fod yn fygythiad mawr i les anifeiliaid. Mae'n rhaid i anifeiliaid gael mynediad at loches, bwyd a dŵr:**

1. symudwch eich anifeiliaid i le mwy addas os nad oes ganddynt ddigon o gysgod, neu os ydych yn rhagweld y gallai cael bwyd a dŵr iddynt fod yn anodd
2. mae'n rhaid i chi ddarparu bwyd a dŵr yn rheolaidd
3. gwnewch yn siŵr nad oes rhew ar gafnau dŵr
4. trefnwch beth i'w wneud os bydd cyflenwadau bwyd a dŵr yn cael eu rhwystro
5. gweithiwch gyda chymdogion os yw'r cyflenwadau yn mynd yn brin neu os yw'n anodd cael mynediad
6. mae'n rhaid trefnu lloches i geffylau a merlod sy'n cael eu cadw y tu allan yn ystod y gaeaf.

**Cludo anifeiliaid mewn tywydd oer:**

1. rhaid i anifeiliaid fod yn ffit i deithio
2. sicrhau bod yr holl systemau dyfrio ac awyru ar gerbydau yn gweithio
3. addasu agoriadau awyru i leihau oerni gwynt tra'n sicrhau digon o awyru
4. sicrhau fod eich llwybr arfaethedig yn ddiogel ac yn glir a bod gennych gynllun wrth gefn ar gyfer pob taith
5. rhaid darparu sarn ar gyfer anifeiliaid ifanc
6. ystyried ychwanegu mwy o sarn ar gyfer pob anifail
7. gwiriwch anifeiliaid yn ystod teithiau



# DEWCH I'N GWELD YN Y FFAIR AEAF

Bydd Staff Llywodraeth Cymru gan gynnwys aelodau o' dim Cysylltwyr fferm a Cyswllt Ffermio yn bresenol ar stondin Llywodraeth Cymru yn Neuadd Morgannwg.

Bydd staff ar gael I rannu'r wybodaeth ddiweddaraf ar ystod o bynciau cyfoes gan gynnwys Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Cynlluniau cymorth amaethyddol, Cynlluniau Creu Coetiroedd, y diweddaraf ar y Rheoliadau Dŵr a iechyd a lles anifeiliaid.

Dewch draw i ddweud helo!

---

# DEWCH O HYD I NI AR FACEBOOK

Gallwch nawr ein dilyn am newyddion a diweddariadau rheolaidd ar bynciau sy'n ymwneud â materion gwledig ar ein tudalen Facebook newydd sbon.

Chwilio am Cymru Wledig / Rural Wales ar Facebook.

Gallwch hefyd ein dilyn ar ein cyfrif X (@LlCCefnGwlad.)

Gallwch hefyd gofrestru i dderbyn Ein e-gylchlythyr materion gwledig misol

Gwlad trwy ymweld: **llyw.cymru/subscribe/announcements**

## Llifogydd

Os ydych yn cadw anifeiliaid mewn ardal lle mae perygl llifogydd, dylech gael cynllun i'w diogelu. **Dylai hyn gynnwys:**

- lle y byddwch yn symud yr anifeiliaid yn ystod llifogydd
- sut y byddwch yn eu cael yno

Mae'n anodd rhagweld llifogydd fflach. Gall ddigwydd yn unrhyw le, hyd yn oed mewn ardaloedd sydd heb ddioddef llifogydd o'r blaen neu heb weld llifogydd ers amser maith.



Yn ystod ac ar ôl unrhyw lifogydd, gall carthffosiaeth, tail a chemegau lygru dŵr, porfa a phorthiant:

- Monitro eich anifeiliaid yn agos
- Cael cyngor gan eich milfeddyg os ydynt yn yfed dŵr llifogydd neu'n bwyta bwyd anifeiliaid a allai fod wedi'u halogi

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor, ewch i: **llyw.cymru/gofalu-am-anifeiliaid-fferm-cheffylau-yn-ystod-tywydd-eithafol**

# Y RHAGLEN RHEOLI LLIFOGYDD YN NATURIOL






Wrth gymryd camau i ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac i helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

1. Sicrhau bod llifogydd yn cael eu rheoli yn naturiol ym mhob dalgylch afon, er mwyn ehangu cynefinoedd gwlyptir a choetir.
2. Cynnal a gwella bioamrywiaeth a chyflawni'r blaenoriaethau yn ein Polisi Adnoddau Naturiol.

Yn dilyn ein Rhaglen Rheoli Llifogydd yn Naturiol (2020 – 2023) lwyddiannus, rydyn ni wedi ymrwymo i ddysgu mwy am reoli llifogydd yn naturiol, ac wedi cael y cyfle i weithio gyda'r Cynllun Buddsoddi Gwledig i barhau i gefnogi'r gwaith hwn am ddwy flynedd arall. Nod y rhaglen newydd hon yw cyflymu'r ffordd rydyn ni'n cynnal ymyriadau rheoli llifogydd yn naturiol, i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd neu erydu arfordirol, wrth gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Am fwy o wybodaeth am y rhaglen, ewch i: **mapdata.llyw.cymru/layers/geonode:nfm_2022_2023**

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

**FARMING** connect
cyswllt **FFERMIO**

SGILIAU A HYFFORDDIANT
SKILLS AND TRAINING

- **Hyfforddiant achrededig gyda chymhorthdal o hyd at 80% ar gyfer unigolion cofrestredig**
- **Dros 100 o gyrsiau ar gael**
- **Gwnewch gais am gyllid sgiliau ar unrhyw adeg sy'n gyfleus i chi**

**Cyrsiau busnes – 80% wedi'i ariannu***
- mae'r cyrsiau'n cynnwys rheolaeth ariannol a busnes, marchnata, iechyd a diogelwch, diogelwch bwyd a rheolaeth amgylcheddol, marchnata digidol, cyrsiau rheoli ILM, gweithio a rheoli'n ddiogel IOSH, cyrsiau amgylcheddol IEMA

**Cyrsiau da byw – 80% wedi'u hariannu***
- pynciau iechyd a lles anifeiliaid a dofednod gan gynnwys perfformiad a chynhyrchiant, rheoli parasitiaid, defnyddio meddyginiaethau milfeddygol yn ddiogel, ffrwythloni artiffisial DIY (AI), trimio traed gwartheg, rheoli lloi, sgôr cyflwr corff mewn gwartheg a maethiad da byw

**Cyrsiau tir – 80% wedi'u hariannu***
- mae'r cyrsiau'n cynnwys pynciau ar laswelltir, rheoli pyllau, adfer mawndir, pynciau ar arddwriaeth a choetir, rheoli dolydd bywyd gwyllt, cwrs sylfaenol BASIS mewn agronomeg, rheoli rhywogaethau ymledol, rheoli llygod

**Cyrsiau peiriannau ac offer tir – 40% wedi'u hariannu***
- mae'r cyrsiau'n cynnwys defnyddio drôn, gyrru tractorau/cerbydau aml dirwedd, llifiau cadwyn, plaladdwyr, offer torri prysgwydd, strimiwr a pheiriant malu coed

**Ers mis Medi 2023, cyn y gallwch wneud cais am gyrsiau byr penodol, efallai y bydd yn orfodol i chi gwblhau cwrs e-ddysgu perthnasol yn gyntaf.*

› Mireinio sgiliau presennol neu ddysgu rhai newydd › Lleihau costau a chynyddu cynhyrchiant
› Gweithio'n fwy diogel ac yn fwy effeithiol › Adeiladu gweithlu mwy hyblyg ac addasadwy

I gael rhestr llawn o'r holl hyfforddiant ewch i'r gwefan, fel arall cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio neu eich swyddog datblygu lleol.

**Swyddog Datblygu Lleol**

**03456 000 813**

**llyw.cymru/cyswlltffermio**

GWASANAETH CYNGHORI
ADVISORY SERVICE

# Pa newidiadau allech chi eu gwneud i'ch busnes fferm gyda £3,000?

## Gallwn ddarparu cyngor cyfrinachol i'ch busnes drwy'r Gwasanaeth Cynghori!

### MAE'R CATEGORÏAU ALLWEDDOL SYDD AR GAEL YN CYNNWYS CYNGOR AR:

- Cynllunio Busnes
- Rheoli Glaswelltir a Chnydau gan gynnwys profi pridd
- Cyngor ar isadeiledd yn unol â rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol
- Cyngor milfeddygol arbenigol gan gynnwys Cynlluniau Iechyd Anifeiliaid
- Arallgyfeirio
- Rheoli Coetir
- Garddwriaeth
- Rheoli Da Byw gan gynnwys cynlluniau dogni
- Amaeth-amgylchedd, Gwasanaethau Ecosystemau ac Archwiliadau Bioamrywiaeth

**Bydd hyd at 90% o gyllid ar gael gyda therfyn o £3000 i bob busnes cymwys i gael cyngor ar sail un i un a/neu grŵp.**




Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu lleol am ragor o wybodaeth a meini prawf cymhwysedd.

Swyddog Datblygu Lleol

03456 000 813

llyw.cymru/cyswlltffermio

Ariennir gan **Llywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

# BLE ALLA I GAEL HELP?

## CYSYLLTWCH Â NI

**FARMWELL WALES**
www.farmwell.wales

**CYSWLLT FFERMIO**
03456 000 813

**SEFYDLIAD DPJ**
0800 5874262

**CRONFA ADDINGTON**
01926 620135

**TIR DEWI**
0800 1214722
info@tirdewi.co.uk

**TÎM CYSYLLTWYR FFERM**
0300 0255449
farmliaisonservice@llyw.cymru

**SEFYDLIAD FUDDIANOL AMAETHYDDOL FRENHINOL (RABI)**
0800 188 4444
help@rabi.org.uk

**Y RHWYDWAITH CYMUNEDAU FFERM**
03000 111 999
help@fcn.org.uk

**CANOLFAN GYSWLLT CWSMERIAID TALIADAU GWLEDIG CYMRU**
0300 062 5004

**MIND CYMRU**
0300 123 3393
info@mind.org.uk

**SAMARITANS YNG NGHYMRU**
0808 164 0123
jo@samaritans.org